Theatr Clwyd

NEUADD WILLIAM ASTON HALL

# DYMA EICH MOMENT CHI

# YOUR MOMENT IS NOW





Andrew AB



Mark Carline

# Pecynnau Aelodaeth Busnes

theatrclwyd.com/corporate / williamastonwrexham.com/corporate

# Eich manteision

Mae cael eich cwmni chi i weithio gyda'n un ni yn llesol i fusnes. Mae gennym ni becynnau aelodaeth ar amrywiaeth o lefelau gyda manteision gwych i'ch helpu chi i gyflawni eich nodau busnes. Rydyn ni hefyd yn creu partneriaethau a nawdd pwrpasol sydd wedi'u cynllunio gyda'ch amcanion penodol chi mewn golwg. Gall opsiynau fel noddi sioeau, digwyddiadau neu arddangosfeydd weithio i chi.

## Lletygarwch ac adloniant heb eu hail



**Gyda dau leoliad gwych, pob un â'i bersonoliaeth, ei gynulleidfa a'i raglen ei hun, mae llawer o opsiynau ar gael i chi.** Ewch ati i gynnal digwyddiadau arbennig i'ch cleientiaid a'ch gwesteion yn un o'n lleoliadau unigryw ni, gan gynnwys y bocs preifat moethus yn Theatr Moondance. Mae mynediad at fuddion unigryw fel teithiau cefn llwyfan, sesiynau holi ac ateb gyda phobl greadigol a chast, neu raglenni wedi'u llofnodi yn golygu y gallwch chi greu digwyddiadau cofiadwy.

## Bryn Williams yn Theatr Clwyd



**Mae'r cogydd arobryn o Gymru, Bryn Williams, yn dod â'i angerdd dros gynnyrch lleol tymhorol a chynaliadwy i'w fwyty newydd yng nghalon Theatr Clwyd.** Cyfle i chi ychwanegu at eich digwyddiadau gyda bwyd blasus Bryn. Gallwch groesawu gwesteion yn ein hystafell fwyta breifat hyd yn oed.

## Gwobrwyo a chydnabod cyflogeion



**Gallai tocynnau am ddim a chynigion unigryw fod yn ychwanegiad perffaith at eich rhaglen gwobrwyo a chydnabod staff.** Neu defnyddiwch nhw ar gyfer meithrin tîm neu nosweithiau allan ar gyfer y cwmni.

Gan ddefnyddio arbenigedd ein hartistiaid a'n partneriaid mewnol, gallwn gyflwyno hyfforddiant sgiliau bywyd i'ch timau - siarad cyhoeddus, cyflwyniadau, sgiliau rhwydweithio a meithrin hyder.

## Tocynnau am ddim



**O'r panto i'r clasuron, comedi i gerddoriaeth glasurol, mae rhywbeth at ddant pawb a gallai tocynnau am ddim agor byd o opsiynau i chi.** Defnyddiwch y tocynnau ar gyfer un o'ch digwyddiadau hyrwyddo, neu roi eich tocynnau yn anrheg i ysgol neu grŵp cymunedol hyd yn oed.

## Cyfleoedd brandio



**Codwch broffil eich brand o flaen mwy na 400,000 o ymwelwyr y flwyddyn neu dargedu cynulleidfaoedd penodol.** Mae opsiynau ar gael i logo eich cwmni ymddangos ar ein gwefan ni, mewn rhaglenni, llyfrynnau, negeseuon e-bost marchnata ac ar sgrin.

## Partneriaethau a nawdd

Beth am i ni greu pecynnau pwrpasol a fydd yn eich helpu chi i gyflawni eich amcanion ac i gael y gorau o'r manteision y gallwn ni eu cynnig.

Theatr Clwyd

NEUADD WILLIAM ASTON HALL

## Pecynnau aelodaeth – **Theatr Clwyd**

| | Aur **£5,500** (+TAW) | Arian **£2,200** (+TAW) | Efydd **£525** (+TAW) |
|---|---|---|---|
| *Tocynnau Theatr Clwyd:* | 70 | 40 | 10 |
| *Gwahoddiadau Noson Gwesteion:* | 6 | 4 | 2 |
| *Bocs Preifat:* | Defnydd am ddim ddwywaith y flwyddyn | Defnydd am ddim unwaith y flwyddyn | — |
| *Bwyd a Diod:* | Derbyniad Prosecco (hyd at 20 o westeion) | — | — |
| *Pwrpasol:* | Ymweliadau gan y cast â'ch derbyniadau ar ôl y sioe (uchafswm o 2 ddigwyddiad y flwyddyn) | — | — |
| *Llogi Lleoliad:* | 1 archeb am ddim, 20% oddi ar yr ail | 20% oddi ar 1 archeb | — |
| *Brandio yn y lleoliad:* | Brandio ar sgrin ddigidol | Brandio ar sgrin ddigidol | — |
| *Cydnabyddiaeth yn y llyfryn:* | Hyd at 3 gwaith y flwyddyn | Hyd at 3 gwaith y flwyddyn | — |
| *Hysbyseb mewn rhaglen:* | Hanner Tudalen | — | — |
| *Brandio ar y wefan:* | Ie | Ie | Ie |
| *E-byst marchnata:* | Baner bwrpasol ar e-byst i'n cronfa ddata | — | — |


## **Theatr Clwyd** a hefyd **Neuadd William Aston**

| | Aur **£6,250** (+TAW) | Arian **£2,700** (+TAW) | Efydd **£775** (+TAW) |
|---|---|---|---|
| *Tocynnau Neuadd William Aston:* | 25 | 12 | 6 |
| *Defnydd o ardal VIP:* | Hyd at 3 gwaith (gan gynnwys byrbrydau bar) | Ar gyfer 1 digwyddiad (F&B heb ei gynnwys) | — |
| *Llogi lleoliad:* | Unwaith y flwyddyn | — | — |
| *Brandio ar y wefan:* | Ie | Ie | Ie |
| *Brandio yn y lleoliad:* | Tudalen bwrpasol ar y sgrin a bwrdd rhestru | Tudalen a rennir ar y sgrin | — |

## Pecyn Aelodaeth – **Neuadd William Aston £7,500** (+TAW)

| | |
|---|---|
| *Tocynnau Neuadd William Aston:* | 300 (Nid mewn 1 sioe i gyd) |
| *Gwahoddiadau Noson Gwesteion:* | 2 |
| *Cynigion tocynnau:* | Ie |
| *Defnydd o ardal VIP:* | Hyd at 3 gwaith (gan gynnwys byrbrydau bar) |
| *Llogi lleoliad:* | Unwaith y flwyddyn |
| *Brandio ar y wefan:* | Ie (safle premiwm) |
| *Brandio yn y lleoliad:* | Tudalen bwrpasol ar y sgrin a bwrdd rhestru |

Os ydych chi wedi eich lleoli yn Wrecsam neu'r cyffiniau ac yn chwilio am wobrau a chymhellion cofiadwy i'ch staff, digwyddiad meithrin tîm neu noson allan dros y Nadolig, dyma'r pecyn i chi.


Kev Curtis

Mae Telerau ac Amodau yn berthnasol – gofynnwch am fanylion
Mae pob aelodaeth busnes yn para am 12 mis. Mae tocynnau am ddim, llogi lleoliad a defnydd o ardal VIP yn amodol ar argaeledd.

Theatr Clwyd

NEUADD WILLIAM ASTON HALL

*“Rydyn ni’n eich croesawu chi fel arweinwyr busnes yn ystod y cyfnod hanfodol yma i Theatr Clwyd. Rydyn ni’n falch o ddarparu cyfleuster celfyddydau o safon byd yn Sir y Fflint ar gyfer pob cymuned ac ymwelydd, ochr yn ochr â datblygu enw da yn Wrecsam fel lleoliad comedi a pherfformiadau byw blaenllaw ar gyfer Cymru. Gan weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr busnes lleol a chenedlaethol, gallwn sicrhau effaith sylweddol ar gyfer eich buddsoddiad, gan wneud Gogledd Cymru yn lle grymusol i fyw a gweithio ynddo, nawr ac yn y dyfodol.”*



**Liam Evans-Ford**
Y Prif Swyddog Gweithredol a’r Cyfarwyddwr Gweithredol

DYMA EICH MOMENT CHI

YOUR MOMENT IS NOW

Os ydych chi eisiau dysgu mwy am ein pecynnau aelodaeth busnes ni, cysylltwch â ni.




**Janine Dwan,** Pennaeth Datblygu
janine.dwan@theatrclwyd.com
01352 406916



**Sarah Jones,** Rheolwr Datblygu
sarah.jones@theatrclwyd.com
01352 918087


Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd Cyf, rhif elusen gofrestredig 1189857